



Gwybodaeth i Rieni am Addysg Uwchradd Cyfrwng Cymraeg



MENTRAU IAITH

CYMRÆG



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Pwrpas

Pwrpas y llyfryn hwn yw cynnig gwybodaeth ddefnyddiol i rieni am yr iaith Gymraeg.

Mae'n cynnwys gwybodaeth am;

- Cefndir Mentrau Iaith Cymru a'r Fenter yng Nghastell-nedd a Phort Talbot
- Manteision addysg cyfrwng Cymraeg
- Cefnogaeth sydd ar gael i rieni
- Atebion i gwestiynau cyffredin sydd gennych

Os hoffech mwy o wybodaeth am unrhyw beth sy'n rhan o'r llyfryn hwn, cysylltwch â ni.



@micnpt



@MenterIaithCNPT

01639



MenterIaithcnpt

763819

menter@micnpt.cymru

Mentrau Iaith Cymru



Mae Mentrau Iaith Cymru (MIC) yn Fudiad Cenedlaethol sy'n cefnogi rhwydwaith o **22 Menter Iaith** ledled Cymru. Mae'r Mentrau Iaith i gyd yn cael eu rheoli gan bwyllgorau rheoli gwirfoddol ac maent yn gweithio maen partneriaeth gydag amryw o sefydliadau eraill.

Nod y Mentrau Iaith yw hybu a hyrwyddo'r iaith Gymraeg ym mhob rhan o Gymru.



Beth yw Menter Iaith?



Mae 22 Menter yn gweithio yn ein cymunedau dros Gymru



yn cefnogi dros 160,000 o bobl o bob oed



i gynyddu a chryfhau'r defnydd o'r Gymraeg yn ein cymunedau.



Yn trefnu gwyliau, clybiau gofal, sesiynau iaith a mwy -



mae'r fenter yn siop-un-stop ar gyfer yr iaith.



yn ein helpu i fyw, dysgu a mwynhau yn Gymraeg.



Mae'r Mentrau Iaith i bawb.



I ddarganfod mwy ewch i mentrauiath.cymru

CYMRAG



Sefydlwyd MICNPT yn Ebrill 2002. Ers ei sefydlu mae'r Fenter wedi datblygu nifer fawr o weithgareddau a phrosiectau i hyrwyddo'r Gymraeg o fewn y sir.

Mae'r Fenter yn gweithio gyda theuluoedd, plant a phobl ifanc, cymunedau a gydag amryw o fudiadau gwahanol.

Nod MICNPT yw hybu a hwyluso defnydd yr iaith Gymraeg yn y sir ac i roi cyfleoedd i drigolion y sir i ddefnyddio, dysgu, clywed ac i fwynhau yn yr iaith Gymraeg.

I dderbyn mwy o wybodaeth am waith y fenter, ewch i'w [gwefan](#) neu cysylltwch â ni.



@micnpt



@MenterIaithCNPT

01639



MenterIaithcnpt

763819

menter@micnpt.cymru



Addysg Gymraeg

Beth bynnag yw iaith y cartref, gall addysg Gymraeg gynnig sgiliau ychwanegol i dy blentyn a mwy o gyfleodd i'r dyfodol.

Mae ymchwil manwl yn dangos bod siarad mwy nag un iaith yn rhoi hwb i blentyn mewn sawl ffordd.

Mae mynychu ysgol gynradd Gymraeg yn rhoi sgil ychwanegol i blentyn, sef y gallu i siarad Cymraeg. Nawr mae'n bwysig i barhau i ddefnyddio a datblygu'r sgil yma yn ysgol uwchradd Cymraeg.

Pam Addysg Uwchradd Gymraeg?

Mae dwyieithrwydd yn golygu'r gallu i fyw eich bywyd pob dydd gan ddefnyddio dwy iaith.

Mae nod syml iawn i addysg cyfrwng Gymraeg, sef rhoi'r gallu i blant ddod yn gwbl rugl yn y Gymraeg a'r Saesneg a derbyn addysg yn y pynciau eraill trwy'r cwricwlwm.

Mae ysgol uwchradd Gymraeg yn rhoi cyfle i blant datblygu eu sgiliau siarad Gymraeg o fewn pynciau a phrofiadau eang a chyffrous. Mae plant yn teimlo'n fwy hyderus wrth ddefnyddio'r iaith pob dydd ac yn teimlo'n barod i ddefnyddio'u sgil ychwanegol wrth symud ymlaen i addysg bellach a'r gweithle.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddatblygu Cymru ddwyieithog trwy ei strategaeth 'Cymraeg 2050' gyda'r weledigaeth o gyrraedd miliwn o siaradwyr erbyn 2050. Mae mwy o alw heddiw nag y bu erioed o'r blaen am sgiliau dwyieithog mewn amryw faes, megis iechyd, addysg, hamdden, gofal plant, manwerthu a gwasanaethau cyhoeddus.

Dyma rhai o'r manteision i ddwyieithrwydd:

- Mae siarad dwy iaith yn cynyddu'r cyfleoedd i'ch plant i gymdeithasu.
- Mae dwy iaith yn agor y drws i ddau ddiwylliant.
- Mae siarad dwy iaith yn helpu i ddysgu ieithoedd eraill.
- Mae galw mawr am y Gymraeg yn y byd gwaith, a gall arwain at fwy o gyflog yn y gweithle.
- Mae ymchwil yn dangos bod pobl sy'n siarad dwy iaith yn meddwl yn fwy hyblyg a chreadigol.
- Mae'r iaith Gymraeg yn sgil ychwanegol.
- Mae plant yn dueddol o berfformio'n well yn yr ysgol.
- Mae plant dwyieithog yn dueddol o fod yn dda iawn am ddadansoddi data a gweithio ar fwy nag un peth.

Ar ben y manteision yma, mae'r manteision sy'n ymwneud â diwylliant a threftadaeth, sy'n gysylltiedig â'n hunaniaeth.

Diwylliant a Threftadaeth

- Mae'r iaith Gymraeg yn rhan hanfodol o'n treftadaeth. Gall siarad Gymraeg dod a phobl yn agosach at ein hanes, diwylliant a thraddodiadau Cymru. Mae'r iaith hefyd yn gadael i bobl ddysgu idiomau, cerddoriaeth, barddoniaeth a llenyddiaeth sy'n cael eu dathlu a'u parchu ledled y byd.
- Mae'r manteision diwylliannol yma yn golygu hunaniaeth bersonol gryf sy'n cynyddu'r ymdeimlad o berthyn a hunanwerth.

"...ro'n i am iddi hi gael y dewisiadau cefais i ddim"

Steven, Tad Mia

"Un peth sy'n poeni nifer o rieni yw bo' ni ddim yn mynd i allu helpu'n plant gyda'u gwaith cartref. Ond gyda chefnogaeth yr ysgol, Mudiad Meithrin a nifer o wefannau gwahanol, 'dyw hyn ddim wedi bod vn broblem"

Louise, Mam, Blaenau Gwent.

Gofidion?

Er bod rhieni wedi danfon eu plant i ysgol gynradd Gymraeg mae yna dal sawl rheswm pam bod rhieni yn gofidio am ddewis addysg uwchradd Cyfrwng Cymraeg i'w plant. Dyma rhai o'r gofidion mwyaf cyffredin, gydag ambell i air o gymorth.

“Gallaf weld y manteision, ond rwy'n becsio oherwydd dwi ddim yn siarad Cymraeg”

“Ni fyddaf yn deall beth sy'n mynd ymlaen mewn awyrgylch cyfrwng Cymraeg”

Mae'r mwyafrif o rieni sy'n danfon eu plant at ysgolion gynradd/uwchradd cyfrwng Cymraeg ddim yn siarad Cymraeg. Dyma pam bod ysgolion y sir yn cyfathrebu yn Gymraeg a Saesneg.

Mae awyrgylch y dosbarth yn Gymraeg (oni bai am wersi Saesneg wrth gwrs!) ond pan fydd rhieni, gofawyr a ffrindiau yn ymweld â'r ysgol, dwyieithrwydd yw'r arfer. Golygir hyn bod athrawon a phlant yn siarad Cymraeg neu Saesneg yn dibynnu ar bwy sy'n rhan o'r sgwrs.

“Ni fyddaf yn gallu helpu fy mhlentyn gyda'u gwaith cartref”

Dyma yn o'r gofidion mwyaf cyffredin ac mae athrawon yn gwbl ymwybodol ohono. Mewn rhan fwyaf o achosion, bydd esboniad Saesneg yn cyd-fynd a gwaith cartref er mwyn i rieni allu helpu eu plant.

Hefyd, mae llawer o gefnogaeth ar gael ar wefannau sy'n addas i blant, wedi'r cyfan, ar gyfer y plant mae'r gwaith cartref ac nid i'r rhieni! Ond, os ydych yn gofidio, gofynnwch.

“Dwi ddim am i sgiliau Saesneg fy mhlentyn dioddef”

Mae disgwyl i blant sy'n gadael ysgolion cyfrwng Cymraeg gyrraedd union yr un safonau Saesneg â'r rhai sydd mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg.

Mae pobl ddwyieithog yn fwy sensitif wrth gyfathrebu ac felly'n fwy ymwybodol o anghenion gwrandawyr, yn enwedig wrth newid o un iaith i'r llall. Mae hyn yn aml iawn yn golygu eu bod yn well wrth gyfathrebu yn y ddwy iaith.

“Nid Cymry ydyn ni – oni fyddai'n rhyfedd i ni ddewis addysg cyfrwng Cymraeg?”

Ddim o gwbl. Does dim rhaid i chi fod yn Gymry i siarad Cymraeg. Mae rhieni plant mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn dod o bedwar ban y byd. Mae rhai yn ystyried eu hunain yn Gymry a rhai ddim, y prif bwynt yw bod dysgu Cymraeg yn agored i bawb.

“Ond beth am addysg ar ôl ysgol?”

Gan fod disgyblion cyfrwng Cymraeg yn gwbl ddwyieithog, gallant ddewis dilyn cyrsiau coleg neu brifysgol trwy gyfrwng y naill iaith (neu'r ddwy). Yn ddiweddar, mae gwaith y Coleg Cymraeg Cenedlaethol wedi sicrhau bod rhagor o raddau'r brifysgol ar gael (yn rhannol neu i gyd) trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae nifer o gyrsiau cyfrwng Cymraeg ar gael mewn addysg bellach hefyd.

“Beth am gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith tu allan i'r dosbarth?”

Mae nifer o fudiadau yn darparu cyfleoedd i blant a phobl ifanc defnyddio'r iaith tu allan i'r dosbarth. Mae'r iaith Gymraeg yn iaith fyw, sy'n cael ei defnyddio ar draws y sir mewn nifer o wahanol sefyllfaoedd. Am fwy o wybodaeth, gwelwch y tudalennau am fudiadau sy'n gallu eich helpu, neu cysylltwch gyda'r Fenter.

Pam parhau addysg dy blentyn drwy addysg cyfrwng Gymraeg?

- Mae dilyniant ieithyddol yn gwneud y newid o'r cynradd i'r uwchradd yn llawer haws i dy blentyn.
- Mae ymchwil yn dangos bod y sgiliau iaith gwerthfawr a ddysgwyd yn yr ysgol gynradd yn cael eu colli'n gyflym os nad ydy'n parhau gyda'r addysg yn yr un iaith.
- Mae sgiliau dwyieithog plant yn datblygu orau wrth gael eu defnyddio bob dydd, ac mae addysg Gymraeg neu ddwyieithog yn rhoi cyfle beunyddiol i blentyn ddatblygu ei sgiliau gan ddod yn fwy rhugl a hyderus.

Am fwy o wybodaeth ewch i LLYW.CYMRU.

Addysg Gymraeg CNPT


Ysgolion Uwchradd Gymraeg

Ysgol Gymraeg Bro Dur

- 01639 502895

Ysgol Gymraeg Ystalyfera (Uwchradd)

- 01639 842129



Mudiadau Cymraeg

Mae llawer o fudiadau yn gweithio dros Gymru gyfan i roi cyfleoedd i bawb, yn cynnwys plant i ddysgu, cymdeithasu a gwella eu hiaith Cymraeg.

- Llywodraeth Cymru
- Mentrau Iaith
- Urdd
- Cymraeg i Blant
- Mudiad Meithrin
- Dechrau Deg
- Cyngor Lleol
- Ysgolion Lleol
- Dysgu Cymraeg

Gallwch gael mwy o wybodaeth a chadw lan gyda phob peth Cymraeg gan y mudiadau uchod ar eu gwefannau ac ar eu tudalennau cyfryngau cymdeithasol. Gweler gwybodaeth am swyddogion Castell-nedd Port Talbot rhai o'r mudiadau uchod o dan fanylion cyswllt defnyddiol.

Manylion Cyswllt Defnyddiol

Mentrau Iaith Cymru

Heledd Ap Gwynfor

Swyddog Datblygu

heledd@mentrauiath.cymru | 01239 71934



Urdd Gorllewin Morgannwg

Ffion Haf Davies

Swyddog Datblygu

ffionhaf@urdd.org | 01792 560624



urdd.org
Urdd Gobaith Cymru

Urdd Brycheiniog a Maesyfed (De Powys)

Rhiannon Walker

Swyddog Datblygu

rhiannonwalker@urdd.org | 07917270071

Chwaraeon yr Urdd

Jamie Price

Swyddog Datblygu Chwaraeon

jamieprice@urdd.org | 07717782049

Gwasanaethau Gwybodaeth Deuluol

fis@npt.gov.uk | 01639 873018



Dysgu Cymraeg

academihywelteifi@abertawe.ac.uk | 01792 602070

